# Uned 2: Lefel A Iechyd a Gofal Cymdeithasol

## 2.2.4 Deddfwriaeth a Pholisïau

### Deddf Cydraddoldeb 2010

**Nod:** amddiffyn unigolion rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac o fewn y gymdeithas ehangach.

**Egwyddorion:** bod pawb yn cael eu hamddiffyn o dan nodweddion oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, a rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

### Deddf Hawliau Dynol 1989

**Nod:** hawliau sylfaenol y mae gan bawb yr hawl iddyn nhw: gan bawb yr hawl i gael eu trin yn gyfartal â thegwch, urddas a pharch.

**Egwyddorion:** yr hawl i gydraddoldeb a rhyddid rhag gwahaniaethu; yr hawl i fywyd, rhyddid a diogelwch personol, rhyddid rhag caethwasiaeth, rhyddid rhag artaith a rhyddid rhag triniaeth israddol.

### Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

**Nod:** Gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru yn yr hirdymor.

**Egwyddorion:** Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru fwy cyfartal, Cymru iachach, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, Cymru sydd yn gyfrifol yn fyd-eang.

### Cymru: Fframwaith ar gyfer darparu iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn sydd ag anghenion cymhleth.

- Mwy o ofal yn y gymuned i bobl hŷn
- Canlyniadau gwell a mwy cyson
- Dull gweithredu mwy cydgysylltiedig (amlddisgyblaethol/cyd-awduro)
- Ymyrraeth gynnar/amserol.

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Nod:** gwella llesiant pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

**Pedair prif egwyddor:**

- Llais, dewis a rheolaeth
- Atal ac ymyrryd yn gynnar (gan leihau anghenion critigol)
- Sicrhau llesiant
- Cyd-awduro (mae unigolion yn chwarae rhan yn y broses o ddylunio eu gofal eu hunain).

### Cymru Iachach

**Cymru Iachach:** Cynllun ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y dyfodol.

**Iechyd ataliol** – helpu pobl i aros yn iach yn hytrach nag aros i drin pobl pan fyddan nhw'n mynd yn sâl. Helpu pobl i reoli eu hiechyd hirdymor eu hunain ac i fod yn fwy bywiog ac annibynnol.

**Dull person-ganolog** (cydweithio, gwasanaethau lleol yn rhannu ac yn gweithio gyda'i gilydd, cofnod digidol unigol i gleifion). Mesur **beth sy'n wirioneddol bwysig** i ddefnyddwyr gwasanaethau.

Mwy o wasanaethau y tu allan i ysbytai ac yng nghartrefi pobl (dull gweithredu **yn y gymuned**). Y gallu i bobl barhau i fod yn annibynnol yn eu cartrefi a'u cymunedau eu hunain.

Y dechnoleg a'r feddyginiaeth ddiweddaraf i wella iechyd ac ymestyn bywyd. Nodi'r modelau iechyd a gofal cymdeithasol gorau a'u cefnogi. Buddsoddi mewn **technolegau newydd** ac **ymarferwyr medrus**.

### Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016

**Nod:** darparu fframwaith ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gofal cymdeithasol yng Nghymru er mwyn gwella ansawdd.

**Egwyddorion:**

**1.** Yn adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd yn sgil Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
**2.** Yn rhoi **pobl wrth wraidd** y gofal a'r cymorth a gânt.
**3.** Yn datblygu dull gweithredu **cydlynol a chyson** yng Nghymru.
**4.** Yn mynd i'r afael â methiannau darparwyr.
**5.** Yn ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i **fodelau gwasanaeth newydd** ac i bryderon am **ansawdd gofal a chymorth**.

### Deddf Iechyd y Cyhoedd Cymru 2017

**Nodau:** ymdrin â phroblemau iechyd y cyhoedd, creu amodau sy'n addas ar gyfer iechyd da, atal achosion o niwed y gellid eu hosgoi.
**Meysydd iechyd cyhoeddus:** asesiadau o'r effaith ar iechyd, sgoriau hylendid bwyd, anghenion fferyllol mewn cymunedau lleol, ysmygu, tatŵs a thyllu, toiledau cyhoeddus.

### Fframwaith Safonau Iechyd a Gofal Cymru 2015

Fframwaith sicrhau ansawdd sydd yn sicrhau bod dull cyson ar waith wrth ddarparu gofal diogel ac o ansawdd uchel.

### Gofal Iechyd Darbodus (Cymru)

**Yn canolbwyntio ar y canlynol:** 1. Caniatáu i bobl wneud penderfyniadau mwy gwybodus am eu gofal a lleihau profion, triniaethau a phresgripsiynau diangen. 2. Gwella'r gofal y mae cleifion allanol yn eu derbyn er mwyn gallu darparu mwy o gyngor arbenigol mewn lleoliadau sylfaenol. 3. Datblygu trefniadau ar gyfer gweithio mewn partneriaethau rhwng gwasanaethau er mwyn gallu rhoi'r gofal priodol ar yr adeg briodol yn y man priodol.

**Nodau:** grymuso'r cyhoedd i reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain drwy wneud yr hyn sydd ei angen yn unig, ymyrryd mewn ffordd amserol a lleihau amrywiadau o ran ymarfer.